# DEILIAD CONTRACT

# HYSBYSIAD I DERFYNU CONTRACT MEDDIANNAETH

**Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan ddeiliad contract(iaid) wrth roi hysbysiad o dan adran 163 neu 168 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, i derfynu contract meddiannaeth ddiogel neu gontract meddiannaeth safonol cyfnodol.**

***Nodyn: NID oes rhaid i ddeiliaid contract ddefnyddio'r ffurflen hon wrth roi hysbysiad.***

| Rhan A: Deiliad neu ddeiliaid contract | Rhan B: Landlord |
|---|---|
| Enw(au): | Enw: Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Cyfeiriad: Tŷ Elwyn, Llanelli, Sir Gâr, SA15 3AP |

## Rhan C: Annedd

Cyfeiriad:

## Rhan D: Hysbysiad i Derfynu Contract Meddiannaeth

Mae deiliad y contract neu ddeiliaid y contract â enwir yn Rhan A yn rhoi hysbysiad i'r Landlord eu bod am derfynu contract meddiannaeth yr annedd a enwir yn Rhan C

gydag effaith o ddyddiad terfyn y contract ----------------------------------------------

*Nodyn: Ni ddylai'r dyddiad uchod **fod yn llai na phedair wythnos** ar ôl y diwrnod y rhoddir hysbysiad i'r landlord.*

## Rhan E: Llofnodwyr

| Llofnodwyd neu cwblhawyd gan y deiliad contract neu ddeiliaid contract: | Dyddiad: |
|---|---|
| ---------------------------------------------- | ---------------------------------------------- |
| ---------------------------------------------- | ---------------------------------------------- |

*Nodyn: Os oes cyd-ddeiliaid contract, rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei lofnodi gan **BOB** un o'r cyd-ddeiliaid contract.*

**Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Llawr Cyntaf, Tŷ Elwyn, Llanelli, Sir Gâr, SA15 3AP**

**Canllawiau i ddeiliaid contract**

**Y ffurflen hon**

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon wrth roi hysbysiad i ddod â'ch contract meddiannaeth i ben, ond rydym yn eich annog i wneud hynny.

**Dyddiad terfynu**

Wrth roi hysbysiad i ddod â'r contract i ben, **rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad**. Ni ddylai'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad **fod yn llai na phedair wythnos ar ôl y diwrnod y rhoddir hysbysiad i'r landlord**.

Os ydych yn methu ag ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad, gall y landlord wneud hawliad meddiant yn eich erbyn, i ddod â'ch contract meddiannaeth i ben yn eich erbyn.

Os byddwch yn ildio meddiant ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad neu cyn hynny, daw'r contract i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

Os byddwch yn ildio meddiant o'r annedd ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn cysylltiad â'r hysbysiad hwn, daw'r contract i ben—

(a) ar y diwrnod y mae deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd, neu

(b) os gwneir gorchymyn adennill meddiant, ar y dyddiad a bennir yn unol ag adran 206 o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**Tynnu'r hysbysiad hwn yn ôl**

Mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith os, cyn i'r contract ddod i ben-

(a) Os ydych yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad i ni (mewn ysgrifen); a

(b) Nad ydynt yn gwrthwynebu (mewn ysgrifen) i'r tynnu'n ôl, cyn diwedd cyfnod rhesymol

**Cyd-ddeiliaid contract**

Os nad yw'r Hysbysiad hwn wedi'i lofnodi gan **BOB** cyd-ddeiliaid contract, ni fydd yn dod â'r contract meddiannaeth i ben. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, bydd yn cael ei drin fel "hysbysiad ymadael" gan ddeiliad y contract sydd wedi ei llofnodi.